

Clawr blaen

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU



Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 fel y'i diwygiwyd 'Y Ddeddf'

Clawr mewnol

Cynllun Iaith Gymraeg

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

Cafodd y Cynllun hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 y Ddeddf. Daeth i rym ar 24 Mai 2012. Mae'r Cynllun hwn yn disodli ein Cynllun blaenorol, dyddiedig 10^{fed} Hydref 2007.

1. Cyflwyniad

Yr Egwyddor o Gydraddoldeb

- Mae Cyngor Llywodraethol Tribiwnlys Priso Cymru ('y Cyngor'), wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- Bydd y Cyngor yn ymdrechu i adeiladu ar y sylfeini da a sefydlwyd gan y corff rhagflaenol yn y ddegawd ddiwethaf. Gwneir hyn drwy ehangu a gwella'r ffordd mae'n cynnig ac yn cyflwyno ei wasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.
- Cred y Cyngor mai cydraddoldeb sydd wrth graidd 'y Ddeddf'. Mae'n datgan bwriad i gynhyrchu nodau realistig a hyblyg yn y Cynllun hwn, sy'n cyd-fynd â'r nod o gynnig gwasanaeth dwyieithog o'r radd flaenaf i'r 'defnyddiwr' (cwsmer) o ddydd i ddydd. Rhaid cofio hanfod 'y Ddeddf' bob amser.

Cefndir y Tribiwnlys Priso yng Nghymru a chrynodeb o'i waith

- Mae'r Cyngor yn rheoli corff polisi ar gyfer y Tribiwnlys Priso, a noddir gan Lywodraeth Cymru, mewn ffordd debyg i'r gwasanaeth cyfatebol yn Lloegr, a noddir fel Corff Cyhoeddus Anadrannol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.
- Mae gwaith y Tribiwnlys yn ymwneud yn bennaf â phrosesu a phenderfynu ar apeliadau mewn perthynas â Threth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig: ac i raddau llai Apeliadau Trethi Draenio.
- Roedd cyfanswm cliriad apêl ar gyfer 2005/06 (yn union wedi'r ailbrisiadau deul) yn dros 16,000; gyda llai na 10% o'r apeliadau hynny'n cyrraedd gwrandawriad. Cynhaliwyd llai na 50 o'r apeliadau y bu'n rhaid penderfynu arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ffigyrau tebyg yn cael eu profi gydag ailbriso ardrethi annomestig 2010.
- Mae'r rhan fwyaf o waith y Tribiwnlys wedi tueddu i ymwneud ag ardrethi annomestig, gydag asiantau proffesiynol yn delio â'r mwyafrif o'r apeliadau hyn. O bryd i'w gilydd cyflwynir apeliadau ardrethi annomestig drwy gyfrwng y Gymraeg, ond gyda Threth y Cyngor mae'r gyfran yn uwch. O ganlyniad, mae cyfran uwch o apeliadau Treth y Cyngor a gynhaliwyd yn y Gymraeg yn cyrraedd gwrandawriad o'i gymharu ag apeliadau ardrethi.

Swyddfeydd Rhanbarthol y Tribiwnlysoedd

- Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru swyddfeydd wedi eu lleoli yng Nghasnewydd ar gyfer Rhanbarthau Dwyrain a De Cymru; a Chyffordd Llandudno a Chaerfyrddin ar gyfer Rhanbarthau Gogledd a Gorllewin Cymru. Mae pob un yn cael ei gefnogi gan gyfanswm o bump neu lai o staff, sy'n cynnwys Swyddogion Cymryd Tribiwnlys a Swyddogion Clerigol. Mae gan bob Rhanbarth Clerc y Rhanbarth, sy'n ogystal â meddu ar statws Cymryd Tribiwnlys, yn bennaeth ar weinyddiaeth eu huned. Mae Prif Weithredwr yn bennaeth rheolwr llinell ar weinyddiaeth gyffredinol y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru.
- Mae Clercod y Rhanbarthau, gyda chymorth y staff cefnogi, yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol ynghlwm â phrosesu apeliadau a chynnal swyddfa'r Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys derbyn, cofrestru a chydabod apeliadau, rhestru a chlirio apeliadau, gohebiaeth gysylltiedig, ymholiadau dros y ffôn, gwaith cefnogaeth ariannol, gwaith personél a threfnu lleoliadau.
- Mae Clerc y Rhanbarth neu ei Swyddogion Cymryd Tribiwnlys yn rhoi cyngor ar weithdrefnau a chyngor cyfreithiol i aelodau lleyg mewn gwrandawriadau, fel bo'n ofynnol.

Aelodaeth y Tribiwnlys

- Mae aelodaeth y Tribiwnlys Prisio yn cynnwys nifer o unigolion lleyg a benodir, yn dilyn cyflwyno cais a chael eu hystyried gan baneli penodi. Ceir Panel ar wahân ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Lleol perthnasol a Llywydd y Tribiwnlys neu ei Gynrychiolydd Rhanbarthol. Etholir Y Llywydd, Cynrychiolydd/Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol a'r Cadeiryddion gan aelodaeth pob Tribiwnlys. Mae dwyieithrwydd yn ffactor bwysig yn y broses benodi i sicrhau fod o leiaf cyfran o aelodaeth pob Rhanbarth â sgiliau dwyieithog i ddiwallu anghenion cydnabyddedig ei ardal.
- Bydd ymrwymiad i gynnal a datblygu elfen ddwyieithog yr aelodau lleyg: sydd ar hyn o bryd yn fwy na 25% yng Nghymru (h.y. 45).

2. Cynllunio a Chyflawni'r Gwasanaeth

Gwrandawiadau Tribiwnlys

Adran 22(1) o'r 'Ddeddf'

“Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”

- Mae'r Tribiwnlys Prisio, er nad ydynt yn llys, yn dilyn Adran 22, ac mae croeso i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achos y Tribiwnlys i wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr apelydd wedi nodi eu bod yn dymuno cynnal eu busnes yn Gymraeg drwy gyfrwng y dogfennau apêl a/neu ohebiaeth, ac felly sicrheir darpariaeth ddwyieithog yn y gwrandawriad yn awtomatig. Hyd yn oed heb rybudd ymlaen llaw mae'r Tribiwnlysoedd Prisio wedi ymdrin ag unigolion sydd wedi defnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf yng nghyswllt eu busnes apêl yn y gwrandawriad. Fodd bynnag, heb rywfaint o rybudd ymlaen llaw ni ellir gwarantu darpariaeth o'r fath ar unwaith yn yr achosion prin hyn.

3. Polisiâu a Gweithdrefnau newydd

- Wrth ffurfio a datblygu polisiâu a gweithdrefnau newydd bydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn asesu unrhyw oblygiadau ieithyddol. Y nod fydd hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg, a gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb fel bo'n briodol wrth wneud hynny: sicrhau cynnal cysondeb y cynllun hwn. Unwaith y'i sefydlir ni fydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb gyfeirio hynny at, a derbyn cytundeb ysgrifenedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Mae'r Cyngor yn croesawu defnydd o'r Gymraeg ym mhroses apêl y Tribiwnlys Prisio: ac wrth wneud hynny ni fydd yn tybio fod y galw isel presennol gan bartïon apelio yn cynrychioli'r norm.
- Bydd staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â ffurfio polisi yn cael eu hysbysu am y cynllun a chyfrifoldebau'r sefydliad o dan 'y Ddeddf'.

Safon y Gwasanaeth yn Gymraeg

- Mae'r Tribiwnlys Prasio yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, a nodir hynny'n gyhoeddus mewn dogfennau ffurfiol.
- Mae'r Tribiwnlys Prasio yn ymrwymedig i sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y Tribiwnlys mewn gwahanol leoliadau.

4. Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- Bydd y Tribiwnlys Prasio yn ei gwneud yn hysbys y gall y cyhoedd ddefnyddio eu dewis iaith mewn unrhyw fath o drafodaeth gyda'r Tribiwnlys Prasio.

Cyfathrebu ysgrifenedig

- Mae'r Tribiwnlys Prasio yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg fel yn Saesneg.
- Atebir yr holl ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, p'un ai yw'n llythyrau neu ddogfennau apêl. Yn yr un modd unwaith y nodir ar lafar fod 'cwsmer' yn dymuno delio â'r Tribiwnlys yn Gymraeg cedwir cofnod o hynny a bydd yr holl fusnes wedi hynny yn cael ei gynnal yn Gymraeg.
- Bydd y Tribiwnlys Prasio yn gohebu yn Gymraeg yn dilyn cyfathrebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg.
- Bydd ymrwymiad i gynnal y gwasanaeth sy'n bodoli eisoes o gyfathrebu ysgrifenedig yn iaith y cwsmer. Yn absenoldeb swyddogion dwyieithog mewn swyddfa benodol, ar adegau, cynigir y gwasanaeth ar y cyfle cynharaf posibl, sy'n annhebygol o fod yn hwy na thri diwrnod gwaith.

Cyfathrebu dros y ffôn

- Mae'r Tribiwnlys Prasio yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg fel yn Saesneg, a bydd yn mabwysiadu dull o gyfleu dewis iaith i'r rhai sy'n ffonio.
- Gall unrhyw un o'r cyhoedd sy'n dymuno cynnal sgwrs ffôn yn Gymraeg wneud hynny. Darperir canllawiau i'r holl staff ar ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg, a sut i drosglwyddo galwadau i staff sy'n siarad Cymraeg. Lle nad yw'r cyfleuster hwn ar gael ar unwaith gwneir trefniadau i gysylltu â'r galwr yn ddiweddarach i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd staff di-gymraeg yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau sylfaenol fel eu bod yn gallu croesawu galwadau Cymraeg o leiaf.

- Bydd ymrwymiad i gynnal y gwasanaeth ffôn dwyieithog sy'n bodoli eisoes o leiaf. Bydd y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i adolygu ar y cyd ag unrhyw recriwtio yn y dyfodol.

Cyfweliadau/Pobl yn galw heibio'r Swyddfa Tribiwnlys

- Ers rhai blynyddoedd mae nifer y bobl sy'n galw heibio swyddfeydd y Tribiwnlys Prisio yn gymharol isel o ystyried y miloedd o apeliadau sy'n cael eu prosesu bob blwyddyn.
- Serch hynny fel arfer bydd aelod o staff wrth law i ddelio ag unigolion sy'n dymuno cynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes cyfleuster digonol ar gael ar unwaith gwneir trefniadau i ddarparu hyn gynted ag y bo modd.
- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynnal ei wasanaeth dwyieithog i 'gwsmeriaid' sy'n galw heibio swyddfeydd y Tribiwnlys. Bydd y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i adolygu ar y cyd ag unrhyw recriwtio yn y dyfodol.

Ymdrin â'r cyhoedd drwy ddulliau eraill

- Bydd ein gwefan yn cynnwys dyfais gwe-lywio amlwg a fydd yn cludo'r defnyddiwr i ardal darparu gwybodaeth yn y Gymraeg.
- Bydd unrhyw ddeunydd generig a gyhoeddwyd yn ddwyieithog gan y Tribiwnlys, hefyd yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar ein gwefan.
- Pryd bynnag byddwn yn gosod cyhoeddiadau ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu postio ar yr un pryd, os ydynt ar gael.
- Mae penderfyniadau Tribiwnlys ar gyfer apeliadau Ardrethu Annomestig a Threth y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd ar y wefan Saesneg, ac yn ddwyieithog lle maent yn cael eu clywed yn Gymraeg.
- Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn cymryd i ystyriaeth ein rhwymedigaethau o dan y Cynllun hwn.
- Byddwn yn adolygu, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan dros amser.

5. Cyfarfodydd/gwrandawiadau a drefnir gan Swyddfa'r Tribiwnlys

Cyfleusterau Cyfieithu

- Pan yw'n ofynnol trefnir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, gan ddarparwyr cymwysedig, mewn gwrandawiadau; mae gan y tribiwnlys gronfa o aelodau dwyieithog ac ni fu'n rhaid trefnu cyfleusterau cyfieithu o'r fath yn aml.

6. Wyneb Cyhoeddus y Cyngor

Hunaniaeth Gorfforaethol

- Bydd hunaniaeth y Tribiwnlys yng Nghymru mewn fformat dwyieithog, yn cynnwys arwyddion a logos.

Arwyddion

- Bydd yr holl arwyddion gwybodaeth yn eiddo'r sefydliad yng Nghymru, yn cynnwys ardaloedd mewnol y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt, yn gwbl ddwyieithog.
- Bydd ymrwymiad bod maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd testun ar arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb.
- Lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân byddant yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau

- Byddwn yn cyhoeddi pob deunydd generig ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.
- Mae llawer o'r ffurflenni, hysbysiadau a thafleuni a ddefnyddir yng Nghymru wedi'u seilio ar ddogfennau tebyg a ddatblygwyd yn y gwasanaeth Tribiwnlys Prisio cyfatebol ond mwy ar gyfer Lloegr. O ganlyniad cyfieithir yr holl ddogfennau lle bo galw cydnabyddedig. Golyga hyn fod bron y cyfan o'r dogfennau apêl Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig prif ffrwd ar gael yn y ddwy iaith (yr eithriadau yw apeliadau achlysurol e.e. apeliadau draenio neu gosb lle paratoir dogfennau *ad hoc* fel bo angen).

- Atebir holl aelodau'r cyhoedd/partion apêl sy'n gwneud eu hapêl neu'n cyflwyno gohebiaeth yn Gymraeg yn eu dewis iaith, fel y mynegwyd yn flaenorol. Ar sail swm y wybodaeth a'r paramedrau Technoleg Gwybodaeth gyfredol dosberthir rhai hysbysiadau penodol yn Gymraeg neu Saesneg (neu'r ddwy iaith) gan nad yw fersiwn ddwyieithog yn ymarferol.
- Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi ac yn parhau i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ar y Tribiwnlys Prasio yng Nghymru gan y Cyngor yn ddwyieithog.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd mewn fformat dwyieithog: rhagwelir y bydd y ddogfen hon ar gael drwy gyfrwng y wefan ar gyfer Tribiwnlys Prasio Cymru yn ystod 2011.
- Bydd hysbysebion am Dribiwnlys Prasio Cymru yn ddwyieithog, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd.
- Mae Tribiwnlys Prasio Cymru o dan y cynllun hwn yn cofrestru eu hymrwymiad i gydraddoldeb yn y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei wasanaeth i'r cyhoedd. Bydd hyn yn ymestyn i'r dogfennau mewnol a ddosberthir i holl aelodaeth y Tribiwnlys lle bo'n ymarferol.

7. Gweithredu a monitro'r Cynllun

Staffio a recriwtio

- Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cyflogi pedwar ar bymtheg o staff ar hyn o bryd; gydag wyth ohonynt yn ddwyieithog. Mae gan eraill rai sgiliau sylfaenol ac mae nifer o'r rheiny wedi cymryd rhan mewn o leiaf un cwrs Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Bydd y Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i gynnal y lefel bresennol o ddwyieithrwydd ymhlith staff o leiaf, wrth annog aelodau eraill o staff i ddysgu Cymru neu wella eu gallu i siarad Cymraeg. Gwneir hyn drwy ddarparu amser rhesymol a chymorth ariannol i ddilyn cyrsiau priodol.
- Bydd Tribiwnlys Prasio Cymru yn sicrhau ei fod yn ceisio cyrchu digon o siaradwyr Cymraeg â sgiliau priodol i alluogi ei fannau gwaith i gyflenwi gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd y cynnydd wrth weithredu'r rhaglen hon yn cael ei fonitro a chyflwynir camau gweithredu petai niferoedd y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n dod o dan y cynllun hwn yn dechrau lleihau.
- Wrth recriwtio staff nodir bob tro bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, os na nodir fod hyn yn allu hanfodol.

Trefniadau gweinyddol

- Cymeradwywyd y cynllun ar y lefel uchaf a bydd yn derbyn awdurdod llawn y sefydliad.
- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i roi cyfrifoldeb am gydlynu'r cynllun i uwch swyddog, gyda rheolwyr yn cael y cyfrifoldeb o weithredu agweddau'r cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau eu hunain. Y swyddogion fydd yn gyfrifol fydd y Prif Weithredwr a Chlercod y Rhanbarthau.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

Monitro

- Y Cyngor Llywodraethol yw'r corff statudol sy'n rheoli polisi a gweinyddiaeth Tribiwnlys Prisio Cymru o ran parhad, gweithredu a monitro'r mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun hwn.
- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i fonitro gweithredu'r cynllun.
- Mae'r Cyngor ar y cyd â'r Tîm Rheoli wedi sefydlu fforymau lloeren, un ohonynt yn Gydydffurfiaeth - Pwyllgor Iaith Gymraeg yn cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi dirprwyo cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r cynllun i'r Pwyllgor Cydydffurfio (Pwyllgor Iaith Gymraeg).
- Ar lefel leol, bydd pob Clerc Rhanbarth yn gyfrifol am y gorchwyllo dydd i ddydd yn eu Rhanbarth cartref.
- Bydd y Cyngor yn mabwysiadu trefn gwyno i ddelio â chwynion am y cynllun. Bydd hyn yn rhan o drefn y sefydliad gwynion cyffredinol.
- Bydd y Cyngor yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar ffurf a gymeradwyir gan y Bwrdd, sy'n disgrifio'r cynnydd o ran gweithredu mesurau'r cynllun yn erbyn yr amserlen gymeradwy.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch y cynllun hwn at:

Y Prif Weithredwr

Cyngor Llywodraethol Tribiwnlys Priso Cymru,
d/l 22 Gold Tops,
CASNEWYDD
NP20 4PG

E-bost VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

a fydd yn dwyn materion o'r fath i sylw Llywydd y Tribiwnlys ac aelodau'r Cyngor Llywodraethol fel bo'n briodol. Dylai materion yn ymwneud â Rhanbarth penodol gael eu cyfeirio at Glerc y Rhanbarth perthnasol: cyfeiriadau yn yr atodiad – Atodiad C.

Amserlen/Rhestr Wirio

	Statws presennol	Gweithred
➤ Cydraddoldeb statws y Gymraeg a'r Saesneg wrth gynnal busnes a llunio polisi	Mabwysiadwyd eisoes	Monitro o fewn 12 mis o gymeradwyaeth y Cynllun ac yna pob 6 -12 mis dilynol.
➤ Busnes gweinyddol yn y swyddfeydd:-		
<u>Staffio swyddfeydd</u> – cyfleuster dwyieithog ar hyn o bryd ym mhob swyddfa ond lle nad yw ar gael ar unwaith gellir trefnu cefnogaeth gan swyddfeydd cyfagos yn ddi-oed.	Ar hyn o bryd 1 (neu fwy) swyddog(ion) dwyieithog ym mhob swyddfa.	Parhau
<u>Recriwtio Staff</u> – bydd dymunoldeb staff dwyieithog yn nodweddiadol bwysig wrth recriwtio.	Arfer ar hyn o bryd	Monitro
<u>Hyfforddiant Staff</u> -annog staff nad ydynt yn ddwyieithog i gymryd rhan mewn hyfforddiant, i ddysgu neu wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Pob staff i gymryd rhan mewn cyfarchion sylfaenol/ymateb llinell gyntaf. Meithrin ymrwymiad staff/creu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cynllun.	Arfer ar hyn o bryd	Monitro o fewn 6 mis o gymeradwyaeth y Cynllun ac yna pob 6 -12 mis dilynol.
<u>Galwyr Ffôn</u> - sydd am gael eu trin yn Gymraeg yn gallu gwneud hyn: os nad yw'r cyfleuster ar gael ar unwaith bydd trefniadau yn cael eu gwneud i bersonél dwyieithog gysylltu â hwy yn ddi-oed.	Arfer ar hyn o bryd	Monitro o fewn 6 mis o gymeradwyaeth y Cynllun ac yna pob 6 -12 mis dilynol.
<u>Galwyr yn Swyddfeydd TP</u> Yn dymuno cynnal eu busnes yn Gymraeg gallu wneud hynny: ond os na fydd person dwyieithog ar gael gwneir trefniadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.		Fel uchod
<u>Arwyddion Mewnol/Allanol</u> dwyieithog/amlygrwydd cyfartal.	Yr arfer ar hyn o bryd	Parhau
<u>Penawdau llythyrau/Hysbysiadau Swyddfa/Slip Cyfarch</u> dwyieithog/amlygrwydd cyfartal.	Yr arfer ar hyn o bryd	Parhau

➤ **Gwrandawiadau Tribiwnlys**

i) Personau sy'n cyflwyno apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu ar ôl hynny yn gohebu neu yn nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu trin felly yn awtomatig yn y gwrandawriad: fel arfer gan aelodau lleyg a swyddogion cymryd tribiwnlys dwyieithog neu gyfleusterau cyfieithydd yn ôl yr angen.

Arfer Safonol

Parhau'r arfer – dynodi mewn nodiadau cyfarwyddyd

ii) Gall geisiadau am Wrandawriad Cymraeg ar fyr rybudd fel arfer cael eu trefnu ar gyfer pob Rhanbarth, fodd bynnag efallai fydd rhai i'r Tribiwnlys ar adegau ohirio am gyfnod byr er mwyn gwneud trefniadau priodol.

Yr arfer ar hyn o bryd

Parhau'r arfer – dynodi mewn nodiadau cyfarwyddyd – [monitor nifer o achosion].

Cyfarfodydd cyhoeddus (ac eithrio gwrandawiadau) ddim fel arfer yn cael eu cynnal gan y Tribiwnlys ond os ydynt yn y dyfodol byddai dwyieithrwydd yn cael eu hymgorffori.

➤ **Systemau cyfrifiadurol a chefnogaeth** darparu ar gyfer hysbysiadau allweddol yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, fel bo'n ymarferol i ddiwallu'r angen amcangyfrifed yn ystod hyd oes debygol y system gyfrifiadurol.

Yr arfer ar hyn o bryd

Monitro o fewn 12 mis o gymeradwyaeth y Cynllun ac yna pob 6 -12 mis dilynol.

Systemau newydd neu ailwampio sylweddol.

Sicrhau bod y mesurau yn y cynllun hwn yn rhan gynhenid o gynllunio cyfrifiadurol i gynnwys yr anghenion amcangyfrifed ar gyfer hyd oes debygol y system gyfrifiadurol

Adnabyddiaeth achosion apêl Cymraeg ar gofnodion cyfrifiadurol a chofnodion ysgrifenedig (marcwyr).

Yr arfer ar hyn o bryd

Parhau

➤ **Taflenni canllaw a deunydd cyhoeddusrwydd**

Yn ymwneud â gwaith/system apêl y Tribiwnlys: bydd taflenni a deunyddiau o'r fath sy'n cael eu hargraffu yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Mae hyn yn dibynnu ar faint, cynllun gosod a logisteg cynhyrchu'r niferoedd i ddiwallu'r angen canfyddedig - serch hynny, bydd safon yr argraffu yn gyfartal o sail amlygrwydd ac ansawdd.

Cynhyrchwyd taflenni newydd ym mis Ebrill 2011

Arolwg Cwsmeriaid: Wrth ymgymryd ag arolygon cyhoeddus gyda chwsmeriaid, bydd yn arfer fod pob agwedd ar gyfathrebu ar gael yn ddwyieithog. Bydd ymatebwyr yn gallu ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu Saesneg.

Sut i gysylltu â ni

SWYDDFEYDD RHANBARTHOL TRIBIWNLYS PRISIO

**Ardaloedd yr ymdrin â:
CYNGOR (AWDURDOD
BILIO)**

Rhanbarth Dwyrain Cymru

22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Clerc y Rhanbarth: Mr S Hill IRRV(Anrh)

Rhif ffôn: 01633 266367 Rhif ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
CBS Torfaen

Rhanbarth Gogledd Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A(L1)
Sarn Mynach
CYFFORDD LLANDUDNO
LL31 9RZ

Clerc y Rhanbarth: Mrs C Dawson Tech IRRV

Rhif ffôn: 03000 625350 Rhif ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Wreccsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
Cyngor Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Rhanbarth De Cymru

22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Clerc y Rhanbarth: Mrs W B Beynon IRRV(Anrh)

Rhif ffôn: 01633 255003 Rhif ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalessouth@vtw.gsi.gov.uk

CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon
Tâf
CS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful
CBS Penybont-ar-Ogwr

Rhanbarth Gorllewin Cymru

Llys y Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
ABERTAWE
SA4 9NX

CBS Castell-Nedd Port
Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1&2)
CS Ceredigion
CS Penfro

Clerc y Rhanbarth: Mrs A H Smith BSc.PhD.FGS

Rhif ffôn: 0300 790 4530 Rhif ffacs: 0300 790 4522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk